

Eich cyf / Your ref: Gofynner am / Please ask for: Gareth Morgans
Fy nghyf / My ref: Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 246522
Dyddiad / Date: 05-01-22 E-bost / E-mail : CwestiwnECS@sirgar.gov.uk / QuestionECS@carmarthenshire.gov.uk

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Wrth i ni ddychwelyd i'n hysgolion yn y flwyddyn newydd, hoffwn ddiolch i staff ein hysgolion am eu hymroddiad a'u gwaith caled, gan fynd i'r afael â heriau'r coronafeirws a pharhau i ddarparu addysg o ansawdd uchel ar yr un pryd, boed hynny wyneb yn wyneb neu o bell. Hoffwn hefyd ddiolch i chi am eich cymorth yn ystod y cyfnod heriol hwn ac i'n dysgwyr am ymateb mor dda i bob sefyllfa.

Wrth i ni ddysgu mwy am yr amrywiolyn newydd, bydd ysgolion yn parhau i weithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol i fonitro'n agos yr effaith ar addysg a lles ein dysgwyr. Ein prif nod yw i ddysgwyr gael dysgu wyneb yn wyneb lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, yn anochel, bydd yn rhaid i ysgolion ymateb yn gyflym a gwneud rhai penderfyniadau allweddol ar fyr rybudd yn ystod y dyddiau a'r wythnosau nesaf, a diolchwn i chi am eich dealltwriaeth o faterion o'r fath.

Symptomau

Gydag achosion yn cynyddu yn y sir, ni ddylai neb fynd i'r ysgol os oes ganddynt unrhyw symptomau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws. Dylent hunanynysu yn syth a threfnu prawf PCR- <https://www.gov.uk/get-coronavirus-test>. Mae'r prif symptomau yn cynnwys:

- tymheredd uchel
- peswch newydd, parhaus
- colled neu newid i synnwyr blas neu arogl.

Dylai rhieni hefyd fod yn ymwybodol o symptomau cynnar eraill, tebyg i gur pen, blinder a phoenau cyffredinol sydd fel arfer yn gysylltiedig â'r fflw.

Mae fy mhlentyn wedi cael ei nodi fel rhywun sydd wedi dod i gysylltiad â rhywun sydd â'r coronafeirws- a all fynychu'r ysgol?

Gall eich plentyn dal i fynychu'r ysgol neu leoliad gofal plant. Fodd bynnag rydym nawr yn gofyn i bob plentyn 5 i 17 oed (yn ogystal ag oedolion sydd wedi eu brechu'n llawn) sydd wedi eu hadnabod fel cyswllt agos ag achos positif o COVID-19 i ddefnyddio profion llif ochrol yn ddyddiol am 7 diwrnod. Mae hwn yn cael ei alw'n 'Brofi Cysylltiadau Dyddiol'. Dylid defnyddio profion cyn iddynt gyrraedd yr ysgol bob dydd.

Nid oes angen i'r unigolion hyn hunanynysu am y diwrnod hwnnw heblaw bod canlyniad y prawf llif ochrol yn bositif a/neu fod ganddynt symptomau. Os oes ganddynt prawf llif ochrol cadarnhaol ac yn datblygu symptomau, dylent hunanynysu ac archebu prawf PCR cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, os oes ganddynt prawf llif ochrol cadarnhaol heb symptomau, ni chânt eu cynghori mwyach i gael prawf PCR dilynol i gadarnhau'r canlyniad, oni bai eu bod mewn grŵp sy'n agored i niwed yn glinigol, ond bydd angen iddynt hunanynysu am 7 diwrnod a chael canlyniad prawf llif ochrol negyddol ar ddiwrnodau 6 a 7.

Mae gan rywun yn fy nghartref symptomau coronafeirws neu maent wedi profi'n bositif am coronafirws. Beth ddylwn i ei wneud?

Gareth Morgans, BAdd/BE; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English

Os oes rhywun yn eich cartref â symptomau coronafeirws neu wedi cael prawf coronafeirws positif, dylech ddilyn y [canllawiau diweddaraf](#).

Erbyn hyn gofynnir i bawb dros 18 oed sydd wedi'u brechu'n llawn (wedi derbyn dau ddos o frechlyn cymeradwy) a phlant rhwng 5 a 17 oed ddefnyddio profion llif ochrol bob dydd am 7 diwrnod os cânt eu nodi fel cyswllt ag achos COVID-19 positif. Rydym yn argymhell bod y rhai sy'n cymryd Profion Cyswllt Dyddiol yn eu defnyddio **cyn** iddynt gyrraedd yr ysgol bob dydd. Nid oes angen i'r unigolion hyn hunanynysu am y diwrnod hwnnw oni bai bod ganddynt brawf llif ochrol positif neu eu bod yn datblygu symptomau. Os oes ganddynt brawf llif ochrol cadarnhaol **ac** yn datblygu symptomau, dylent hunanynysu ac archebu prawf PCR cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, os oes ganddynt brawf llif ochrol cadarnhaol heb symptomau, ni chânt eu cynghori mwyach i gael prawf PCR dilynol i gadarnhau'r canlyniad, oni bai eu bod mewn grŵp sy'n agored i niwed yn glinigol, ond bydd angen iddynt hunanynysu am 7 diwrnod a chael canlyniad prawf llif ochrol negyddol ar ddiwrnodau 6 a 7.

Rhaid i oedolion sydd heb eu brechu ac sydd wedi'u nodi fel cyswllt i achosion positif ac sy'n hunanynysu am 10 diwrnod bellach wneud prawf llif unffordd ar ddiwrnod dau a diwrnod wyth yn hytrach na phrawf PCR.

Rydw i wedi profi'n bositif ar gyfer COVID-19 o'r blaen. Oes angen i fi gymryd prawf os ydw i wedi cael fy adnabod fel cyswllt?

Nid ydym yn argymhell defnyddio profion PCR os yw'r person wedi'u cadarnhau yn bositif drwy brawf PCR yn y 90 diwrnod diwethaf. Dylai unigolion 5-17 oed ac oedolion sydd wedi eu brechu'n llawn barhau i ddefnyddio profion am 7 diwrnod ers i aelod o'r aelwyd brofi'n bositif- hyd yn oed os ydynt wedi dioddef o COVID yn y 90 diwrnod diwethaf.

Profi Rheolaidd

Pa mor aml dylwn i ddefnyddio prawf?

Cynghorir holl staff a dysgwyr oed uwchradd i ddefnyddio profion llif ochrol deirgwaith yr wythnos a chofnodi'r canlyniadau.

Sut ydw i'n cofnodi fy nghanlyniadau?

Mae'n bwysig cofnodi canlyniad eich prawf- positif, negatif, neu annilys- cyn gynted ag y bo modd. Gallwch [gofnodi eich canlyniadau ar GOV.UK](#) neu drwy ffonio 119. Mae'n golygu bod achosion newydd yn cael eu nodi a'n helpu ni i ddeall sut mae'r profion yn cael eu defnyddio.

O ble fedra i gael profion llif unffordd?

Mae trefniadau o ran cyflenwad profion ar gyfer dysgwyr uwchradd a staff yn parhau fel arfer. Gall dysgwyr cynradd ddefnyddio unrhyw brawf sydd ganddynt yn eu tai yn barod. Os nad oes rhai gyda chi, gallwch archebu ar-lein, casglu o'u fferyllfa neu safle casglu lleol. Gallwch gael gafael ar brofion drwy'r dulliau y sonnir amdanynt yn [sut i gael profion llif unffordd](#). Fel cam olaf, gallwch holi eich ysgol i weld os oes cyflenwad ar gael.

Gorchuddion Wyneb

Mae pob disgybl oed Uwchradd wedi cael dau orchudd wyneb. Yn anffodus, mae nifer o'r gorchuddion hyn yn cael eu colli neu mae dysgwyr yn eu hanghofio adref. A wnewch chi sicrhau fod eich plentyn/plant yn mynd â'u gorchudd wyneb gyda nhw i'r ysgol.

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

Diolch am eich cydweithrediad,

Gareth Morgans

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

[Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg](#)
You are welcome to contact me in Welsh or English